PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Polisi Diogelu

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb |
|---|---|---|
| Hydref 2018 | Cyhoeddiad cyntaf, cymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio | |
| Mehefin 2020 | Adolygu ac ailgyhoeddi | |
| Gorffennaf 2021 | Adolygu yn dilyn sylwadau gan UKRI | |
| Rhagfyr 2021 | Adolygu yn dilyn sylwadau gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu | Prif Swyddog Gweithredu | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 19 Gorffennaf 2021 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

## 1. RHAGARWEINIAD

Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth ddiogelu benodol yn ymwneud â phrifysgolion; fodd bynnag, mae Prifysgol Bangor yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb a rhai pwerau cyfreithiol i ddiogelu'r sawl y mae'n dod i gysylltiad â hwy, neu sy'n dod ar ei heiddo.

Mae gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 o ran diogelu hefyd yn cael eu cynnwys o fewn Polisi Atal (*Prevent*) y brifysgol.

### [a] Diffiniadau

Yn y Polisi hwn, bydd y geiriau canlynol yn golygu:

**"Plentyn", "Plant"** - unrhyw un sydd heb gael eu pen-blwydd yn 18 oed eto.
**"Gweithwyr contract"** - pobl a gyflogir dros dro gan y brifysgol
**"Swyddog Diogelu"** - Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio'r brifysgol
**"Staff"** - pawb a gyflogir gan y brifysgol
**"Myfyrwyr"** - unrhyw rai sydd wedi eu cofrestru ar hyn o bryd i gael eu dysgu gan y brifysgol
**"Eiddo'r Brifysgol"** - pob adeilad a thir sy'n eiddo i'r brifysgol neu'n cael ei weithredu ganddi
**"Ymwelwyr"** - unrhyw rai sydd ar eiddo'r brifysgol am unrhyw reswm, boed wedi eu gwahodd gan staff, myfyrwyr neu fel arall
**"Gwirfoddolwr"** - unrhyw rai sy'n cyflawni gwaith di-dâl yn gyfreithlon i'r brifysgol
**"Oedolyn mewn Perygl"** - unrhyw un 18 oed a hŷn a all fod angen gwasanaethau gofal yn y gymuned oherwydd anabledd meddyliol neu unrhyw anabledd arall, oed neu afiechyd, ac sydd yn analluog neu a allai fod yn analluog i edrych ar ôl ei hun neu'n analluog i'w amddiffyn ei hun yn erbyn niwed sylweddoli neu fanteisio difrifol.[1] ac a all fod yn unigolyn[2]:

- sydd ag anableddau dysgu;
- sydd â phroblemau iechyd meddwl gan gynnwys dementia;
- sy'n rhywun hŷn sydd gydag anghenion cymorth / gofal;
- sy'n gorfforol fregus neu'n dioddef o salwch cronig;
- sydd ag anabledd corfforol neu synhwyraidd;
- sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol;
- sydd ag anhwylder sbectrwm awtistaidd

**"Pobl ifanc"** yw plant 16 neu 17 oed

### [b] Datganiad o Egwyddorion

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Darparu amgylchedd diogel i'w holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol i wneud hynny.
- Darparu amgylchedd sy'n ddiogel rhag niwed i holl aelodau cymuned y brifysgol cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol i wneud hynny.
- Cefnogi hawliau plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl i gael eu hamddiffyn rhag cam-driniaeth, rhyddid rhag niwed a chael amgylchedd diogel ac iach.

[1] Fel y diffiniwyd yn arweiniad Llywodraeth Cymru, *Mewn Dwylo Diogel 2000*
[2] Polisi Goruchwylio Diogelu Cymru Gyfan 2017

- Sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus rhag camdriniaeth neu niwed.
- Sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn eu lle i ymdrin â honiadau o gamdriniaeth.

Mae’r brifysgol yn cydnabod y bydd llwyddiant y Polisi yn dibynnu ar ei weithredu'n effeithiol. Mae’r brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod y Polisi hwn yn cael ei ddosbarthu o fewn y brifysgol a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff allweddol ac eraill fel bo'n briodol.

Rheolir y Polisi a'i weithdrefnau cysylltiedig gan y Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am y Polisi neu ei weithrediadau ati.

Mae’r Brifysgol yn cael ei lywio a’i arwain gan *Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol i Gymru 2019*[3] sydd yn rhoi manylion am swyddogaethau a chyfrifoldebau hanfodol ymarferwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth ac esgeulustod

**[c] Cwmpas y Polisi Diogelu**

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i weithgareddau a chyfleusterau’r brifysgol yn ymwneud â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithgareddau’r brifysgol ac i bob digwyddiad y mae brand y brifysgol arno a gynhelir ar dir y brifysgol, a'r rhai a gynhelir oddi ar y campws ar safleoedd nad ydynt yn rhan o’r brifysgol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau a gynhelir ar-lein ar lwyfannau megis Microsoft Teams neu Zoom. Mae’r polisi yn cwmpasu:

- Pob aelod staff a gyflogir gan y brifysgol;
- Pob myfyriwr sydd wedi cofrestru yn y brifysgol;
- Siaradwyr gwadd, swyddi anrhydeddus a chyfarwyddwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr contract sy’n gweithio ar ran y brifysgol;
- Pob aelod o Gyngor y brifysgol;
- Pob amgylchiad lle mae plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn bresennol ar eiddo'r brifysgol a / neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau’r brifysgol.

Wrth gyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas ag oedolion mewn perygl (a gydnabyddir sydd dros 18 oed) bydd y brifysgol, yn ogystal, yn cadw at y gwerthoedd craidd canlynol:

- **Preifatrwydd** - hawl unigolion i gael eu gadael ar eu pennau eu hunain neu heb ymyrraeth, ac yn rhydd rhag ymyrraeth neu sylw'r cyhoedd yn eu materion personol.
- **Urddas** - cydnabod gwerth cynhenid pobl, waeth beth fo'u hamgylchiadau, trwy barchu eu natur unigryw a'u hanghenion personol; trin pobl â pharch.
- **Annibyniaeth a hunan-benderfyniad** - y cyfle i weithredu a meddwl heb orfod troi at rywun arall, gan gynnwys parodrwydd i wynebu risg bersonol resymol wedi ei seilio ar wybodaeth.

[3] https://www.diogelu.cymru/index.html

- **Dewis** - y cyfle i ddewis yn annibynnol o ystod o opsiynau.
- **Hawliau** - cynnal pob hawl sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth.
- **Boddhad** - gwireddu dyheadau a galluoedd personol ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.

**[d] Deddfwriaeth, Polisïau a Dulliau Gweithredu Perthnasol**

O safbwynt gweithio gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, dylai staff gadw at yr holl ofynion a dulliau gweithredu cyfreithiol yn ogystal ag unrhyw ganllawiau gan y cyrff proffesiynol priodol.

Mae’r brifysgol yn cydnabod bod ganddi bwerau a dyletswyddau cyfreithiol penodol dan Ddeddfau Plant 1989 a 2004 a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, ac ati, i ddiogelu lles plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl ar ei heiddo neu sy'n dod i gysylltiad â'i staff, myfyrwyr, gwirfoddolwyr neu gontractwyr.

Pan fo staff y brifysgol mewn sefyllfa o ymddiriedaeth gyda phlentyn neu berson ifanc, mae perthynas amhriodol dan yr amgylchiadau hynny'n debygol o fod yn drosedd o gamddefnyddio ymddiriedaeth dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

Mae gan y brifysgol bwerau dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 i holi, dim ond dan amgylchiadau penodol yn ymwneud â’r cwrs y bwriedir ei astudio neu’r swyddogaeth y bwriedir ei chyflawni, am gofnod troseddol staff, myfyrwyr neu wirfoddolwyr i asesu unrhyw risg i blant ac i gymryd camau i ddiogelu plant a phobl ifanc yn unol â Deddf Amddiffyn Rhyddid 2012.

Mae rhestr o ddeddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau perthnasol wedi ei chynnwys fel Atodiad 1 i'r Polisi.

## 2. MEYSYDD GWEITHGAREDDAU SY'N CYNNWYS PLANT, POBL IFANC AC OEDOLION MEWN PERYGL

Nodir y canlynol fel meysydd lle gallai fod gan y brifysgol gysylltiad â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- Addysgu, goruchwylio a chefnogi myfyrwyr;
- Unigolion a gyflogir gan y brifysgol;
- Unigolion sy'n cyflawni profiad gwaith yn y brifysgol;
- Myfyrwyr mewn neuaddau preswyl Prifysgol ac unigolion sy'n dod i ddigwyddiadau preswyl;
- Plant a phobl ifanc sydd mewn llety teulu sy’n cael ei reoli gan y Brifysgol neu sy'n eiddo iddi.
- Plant a phobl ifanc sy'n dod i’r brifysgol i gymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon neu hamdden;
- Meithrinfa ar y safle (sydd â'i pholisïau diogelu ei hun);
- Ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon y brifysgol;
- Unigolion sy'n destunau ymchwil;

- Presenoldeb mewn digwyddiadau preifat sy'n cael eu rhedeg yn fasnachol gan y brifysgol;
- Cynadleddau;
- Ar leoliadau ac mewn lleoliadau proffesiynol a chlinigol eraill;
- Teithiau maes, ymweliadau a gweithgareddau eraill megis gwirfoddoli a gweithgareddau cymdeithasol eraill;
- Gweithgareddau cymdeithasau a rhwydweithiau myfyrwyr;
- Unigolion sydd ar eiddo’r brifysgol mewn digwyddiadau na threfnir gan y brifysgol, ar gyfer dyddiau agored, neu ddigwyddiadau eraill a drefnir gan y brifysgol;
- Unigolion sy'n mynychu digwyddiadau a drefnir gan y brifysgol mewn lleoliadau i ffwrdd o eiddo’r brifysgol.

## 3. CYFRIFOLDEBAU

### [a] Grŵp Tasg Cydymffurfio

Mae’r **Grŵp Tasg Cydymffurfio** yn gyfrifol am ddatblygu, gweithredu, monitro ac adolygu Polisi Diogelu’r brifysgol.

### [b] Gwasanaethau Corfforaethol

Y **Prif Swyddog Gweithredu** yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol dros ddiogelu yn y brifysgol ac mae'n cadeirio'r Grŵp Tasg Cydymffurfio.

Y **Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu** yw'r Swyddog Diogelu penodedig yn y brifysgol, ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Gweithredu a hyrwyddo'r Polisi hwn.
- Sicrhau bod y Polisi'n cael ei fonitro a'i adolygu yn unol ag unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a / neu ganllawiau ar amddiffyn plant.
- Gweithredu fel y prif gyswllt o fewn y brifysgol i amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.
- Sicrhau bod aelodau staff priodol yn cael gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant ar amddiffyn plant.
- Sefydlu a chynnal cyswllt ag asiantaethau statudol lleol gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Ymateb yn briodol i ddatgeliadau neu bryderon sy'n ymwneud â lles plentyn, person ifanc neu oedolion mewn perygl.
- Cadw cofnodion cyfrinachol o achosion amddiffyn plant y rhoddwyd gwybod amdanynt a'r camau a gymerwyd.
- Lle bo angen, a chan ddilyn Gweithdrefnau Cyfeirio’r brifysgol, cyfeirio achosion at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, megis yr Heddlu neu'r Awdurdod Lleol.

### [c] Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol

**Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol** yw'r Cydlynwyr Diogelu penodedig ar gyfer eu Coleg, Ysgol neu Wasanaeth priodol. Wrth

gyflawni eu dyletswyddau gallant bennu aelod staff i weithredu ar eu rhan. Mae'r Cydlynydd Diogelu penodedig yn gyfrifol am y canlynol:

i) Sicrhau bod asesiad risg yn cael ei wneud ar unrhyw raglen neu weithgaredd sy'n cynnwys plant, pobl ifanc a / neu oedolion mewn perygl (mae templed ar gyfer asesu risg gweithgareddau a rhaglenni wedi ei gynnwys yn Atodiad 4), a'i fod wedi ei gynllunio, ei drefnu a'i gyflwyno, (gan gynnwys nodi'n benodol unrhyw faterion amddiffyn plant), mewn modd sy'n gyson â'r Polisi hwn;

ii) Sicrhau bod trefniadau i adnabod plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl sy'n dod o fewn eu maes cyfrifoldeb a sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i sicrhau bod aelodau staff priodol yn cael eu hysbysu;

iii) Sicrhau bod yr holl swyddi staff sy'n cynnwys mynediad sylweddol heb oruchwyliaeth at blant a phobl ifanc yn cael eu nodi a bod y gweithdrefnau dilysu statudol perthnasol (megis gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu ac Atal - Disclosure and Barring Service - DBS) yn cael eu cyflawni;

iv) Sicrhau bod rhaglenni gradd a modiwlau y maent yn eu cynnal yn cael eu hasesu i nodi unrhyw gyswllt sylweddol, heb oruchwyliaeth gyda phlant a phobl ifanc, a lle nodir cyswllt felly ei fod yn cael ei ddatgan yn glir ym manyleb y rhaglen a'r modiwl bod angen cael gwiriadau (megis rhai'r DBS);

v) Sicrhau bod staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn unrhyw raglen neu weithgaredd sy'n ymwneud â phlant / pobl ifanc a / neu oedolion mewn perygl wedi eu hyfforddi'n ddigonol, a lle bo angen bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal;

vi) Rhoi gwybod i'r Swyddog Amddiffyn Plant am y mesurau amddiffyn plant ar gyfer y rhaglen neu’r gweithgaredd, gan gynnwys, lle mae'n briodol, enw’r sawl sydd wedi ei benodi ar gyfer y mesurau amddiffyn plant hynny.

vii) Sicrhau wrth lunio trefniadau partneriaeth a breinio bod gofynion y Polisi Diogelu yn cael eu cynnwys a'u hadlewyrchu yn yr holl ddogfennau perthnasol.

viii) Sicrhau bod gweithdrefnau addas wedi eu sefydlu o fewn eu maes cyfrifoldeb sy'n awdurdodi, neu wahardd, aelodau staff a myfyrwyr i ddod â phlant neu bobl ifanc i eiddo’r brifysgol.

**[d] Cynnwys rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a chynrychiolwyr cyfreithiol**

Mae’r brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid a chynrychiolwyr cyfreithiol yn gwbl ymwybodol o'r gweithgareddau a'r risgiau y gall plant, pobl ifanc ac (lle y bo'n bosibl) oedolion mewn perygl ddod ar eu traws yng ngweithgareddau’r brifysgol.

Mewn amgylchiadau heblaw lle mae'r person ifanc yn fyfyriwr neu'n weithiwr yn y brifysgol, ceisir caniatâd rhiant / gwarcheidwad / gofalwr (naill ai'n uniongyrchol gan rieni, gwarcheidwad neu ofalwr yr unigolyn neu drwy ysgol neu gorff trefnu arall) cyn i’r brifysgol

ymgymryd â gweithgaredd sy'n cynnwys plant neu bobl ifanc, neu (lle bo hynny'n briodol) oedolion bregus, boed ar eiddo’r brifysgol neu oddi arno.

Pan fo myfyriwr dan 18 oed ar adeg ei dderbyn i’r brifysgol, gweithredir *Polisi a Gweithdrefnau Prifysgol Bangor ar gyfer Myfyrwyr dan 18 oed* .

**4. DIOGELU AR-LEIN**

[a]**Addysgu, Dysgu, Cefnogi ac Ymchwil**

i. Mae darparu gwasanaethau ar-lein yn caniatáu i’r brifysgol ymestyn yn ehangach, a chefnogi, addysgu a gwneud ymchwil gyda mwy o blant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys

- Gweithgareddau addysgu a dysgu;
- Gweithgareddau ymchwil;
- Fforymau;
- goruchwylio ar-lein a chyfarfodydd mentora;
- gwasanaethau cwnsela ar-lein;
- sgwrsio a negeseuon gwib;
- ffrydio byw

ii. Rhaid i staff sy'n ymgymryd â gweithgareddau ar-lein ar ran y brifysgol sicrhau bob amser eu bod yn defnyddio iaith sy'n briodol i'r oedran wrth gyfathrebu a rhaid iddynt hefyd sicrhau bod pob cyfathrebiad yn berthnasol i'r gwaith y maent yn ymwneud ag ef.

iii. Rhaid i'r staff ddefnyddio cyfrifon Prifysgol Bangor i gyfathrebu â phlant, pobl ifanc a/neu oedolion mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys negeseuon e-bost, neu'r cyfryngau cymdeithasol a ni ddylid defnyddio cyfrifon personol byth. Yn ogystal, lle bo hynny'n bosib, rhaid i'r unigolion ddefnyddio dyfais sy'n eiddo i Brifysgol Bangor i gyfathrebu.

iv. Yn ogystal, rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn deall sut mae'r gwahanol fathau o lwyfannau cyfathrebu yn gweithio, a beth yw eu cyfyngiadau o ran oedran (lle bo'n berthnasol). Er enghraifft, terfyn oedran isaf Facebook yw 13 oed. Bydd gwirio gyda NetAware yn caniatáu i'r staff ddarganfod beth yw'r cyfyngiadau oedran ar amrywiol lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

v. Mae'n hanfodol bod y staff bob amser yn gofyn am gydsyniad gwybodus priodol gan rieni / gwarcheidwaid / gofalwyr / cynrychiolwyr cyfreithiol os ydynt am dynnu lluniau a / neu rannu lluniau o blentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl at unrhyw bwrpas.

**[b] Ffrydio byw**

Mae ffrydio byw yn ffordd wych i’r brifysgol gysylltu â'r gymuned ehangach, ond mae'n rhaid i staff sy'n ystyried ffrydio digwyddiad fod yn ymwybodol o ddiogelwch a lles unrhyw blant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl sy'n rhan o'r digwyddiad

ii. Yn benodol, mae'n rhaid i'r staff sicrhau bod yr holl gyfranogwyr, ond yn enwedig plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, yn gwbl ymwybodol o natur y digwyddiad,

y ffaith y bydd yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y bydd unrhyw sylwadau a wnânt yn cael eu gweld gan eraill.

iii. Mae'n hanfodol sicrhau bod yr holl gyfranogwyr, ond yn enwedig plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl, yn cael eu hatgoffa i beidio â rhannu unrhyw wybodaeth bersonol yn ystod y digwyddiad ffrydio byw, ac i beidio ag ymateb i gyfathrebu / cyswllt gan unigolion nad ydynt yn eu hadnabod. Lle bo modd, dylid rheoli mynediad i'r ffrydio byw yn ofalus ac argymhellir defnyddio trefn fewngofnodi a chyfrinair i gyfyngu ar y gynulleidfa.

iv. Dylid gwneud cyfranogwyr yn ymwybodol â phwy i gysylltu os ydynt yn gweld neu'n clywed unrhyw beth sy'n peri gofid neu'n amhriodol, a rhaid i'r staff sicrhau, pa bynnag lwyfan maent yn ei defnyddio, eu bod yn deall y gosodiadau preifatrwydd ac yn gwybod sut mae rhoi gwybod ynglŷn ag unrhyw gynnwys tramgwyddus neu ddifrïol.

v. Os gofynnir i aelodau staff gyfrannu at ddigwyddiad ffrydio byw allanol, rhaid sicrhau eu bod yn gwybod pa gynnwys a ddefnyddir yn ystod y digwyddiad, p'un a yw'n briodol ar gyfer oedran y cyfranogwyr, a phwy fydd aelodau'r gynulleidfa.

vi. Rhaid cytuno ynglŷn â defnydd y ffrwd fyw ar ôl ei darlledu ac esbonio hynny i'r holl gyfranogwyr, cyn y digwyddiad.

## 5. DULLIAU GWIRIO

Mae'n ofynnol dan y gyfraith i'r Brifysgol sicrhau bod yr holl weithdrefnau gwirio priodol yn cael eu cynnal ar gyfer staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n gyson neu'n rheolaidd gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Rhaid i weithdrefnau gwirio gael eu cyflawni gan y Deon Coleg, Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol, neu eu swyddog penodedig. [4]

Lle mae swydd, rôl neu weithgaredd yn cynnwys mynediad sylweddol, heb oruchwyliaeth at blant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn gyson neu'n rheolaidd[5] gall y brifysgol yn ôl ei doethineb, ac i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu, ei gwneud yn ofynnol i staff neu fyfyrwyr ddatgelu unrhyw gofnodion troseddol a allai fod ganddynt drwy gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar y lefel briodol cyn unrhyw gyswllt.

Dylai Deoniaid Coleg, Penaethiaid Ysgol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol hefyd ymgyfarwyddo â gofynion *Polisi Moeseg Ymchwil*[6] y brifysgol a all nodi ei bod yn ofynnol bod y gweithdrefnau gwirio priodol yn cael eu cynnal ar gyfer rhai unigolion sy'n cynnal ymchwil gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

Bydd y brifysgol, trwy'r Adran Adnoddau Dynol, yn cyflawni Datgeliadau Safonol neu Fanwl priodol y DBS mewn perthynas â swyddi neu swyddogaethau sy'n cynnwys gofalu'n

[4] Gellir cael cyngor pellach ar yr holl weithdrefnau gwirio gan Adnoddau Dynol.

[5] Bydd hyn yn cynnwys staff fel cwnselwyr; myfyrwyr wardeiniaid; uwch wardeniaid; pennaeth preswylfeydd; staff diogelwch; gwasanaethau myfyrwyr; gweithwyr ieuenctid gwirfoddol a thiwtoriaid personol myfyrwyr dan 18 oed.

[6] Gellir cael arweiniad pellach ar wefan Llywodraethu a Chydymffurfio.

rheolaidd am blant, pobl ifanc neu oedolion bregus, eu hyfforddi, eu goruchwylio neu fod yn gyfrifol amdanynt ar eu pennau eu hunain.

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i drin gwybodaeth bersonol categori arbennig[7] yn ofalus ac yn gyfrinachol. Ceisir Datgeliadau DBS yn unig ar sail angen gwybod, a byddant yn cael eu hasesu gan yr uwch swyddog neu'r swyddog perthnasol a fydd yn gweithredu'n ddiduedd a theg.

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 a Deddf Gwarchod Rhyddid 2012 yn darparu ar gyfer creu cynllun cyfeirio, archwilio a gwahardd drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae gan y brifysgol ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio pobl at y DBS (ar ôl cwblhau prosesau disgyblu mewnol y brifysgol) pan fyddant wedi niweidio plentyn neu oedolyn bregus, neu os oedd perygl o niwed. Ni all unrhyw un sy'n cael ei wahardd gan yr ISA weithio neu wirfoddoli gyda'r grŵp neu'r grwpiau bregus y maent yn cael eu gwahardd rhag gweithio â hwy.

## 6. CYFRIFOLDEB YN YMWNEUD Â HONIADAU O GAM-DRIN

Polisi'r brifysgol yw: -

[a] Os oes gan unrhyw aelod staff, unrhyw fyfyriwr neu wirfoddolwr wybodaeth, pryderon neu amheuon bod plentyn, person ifanc neu oedolion mewn perygl yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o fod mewn perygl o ddioddef niwed, yna mae'n rhaid iddynt gyfeirio'r mater at Swyddog Diogelu'r brifysgol a fydd yn cysylltu â'r asiantaethau statudol perthnasol.

[b] Yn ogystal, os oes gan unrhyw aelod staff, myfyriwr neu wirfoddolwr bryderon penodol yn ymwneud â diogelwch neu les plentyn, person ifanc neu oedolion mewn perygl ar unrhyw raglen, gweithgaredd neu wrth ddefnyddio cyfleusterau'r brifysgol, dylent godi'r mater gyda'u Deon Coleg, Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol fel y Cynrychiolydd Diogelu penodedig a fydd yn cyfeirio'r mater at Swyddog Diogelu'r brifysgol.

[c] Bydd unrhyw gyfeiriadau a wneir i'r Swyddog Diogelu yn cael eu hystyried cyn eu cyfeirio ymlaen at yr asiantaethau statudol perthnasol cyn gynted â phosib.

[d] Ymdrinnir â datgeliadau o fewn y Gwasanaeth Cwnsela o dan y Cod Ymddygiad proffesiynol perthnasol ar gyfer Cwnselwyr a Seicotherapyddion. Trosglwyddir gwybodaeth i'r Swyddog Diogelu pan ystyrir hynny'n briodol gan y Gwasanaeth Cwnsela.

Dan Adran 3 Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiedig) 2000 mae'n drosedd i unrhyw un 18 oed a hŷn ymwneud yn rhywiol â rhywun dan yr oedran hwnnw lle maent mewn safle o ymddiriedaeth mewn perthynas â'r person iau. Mae safle o ymddiriedaeth yn cynnwys edrych ar ôl pobl ifanc sydd mewn addysg lawn-amser.

---

[7] Gwybodaeth am hil unigolyn; tarddiad ethnig; gwleidyddiaeth; crefydd; aelodaeth undeb llafur; geneteg; biometreg (lle caiff ei ddefnyddio i ddibenion adnabod); iechyd; bywyd rhywiol; neu dueddfryd rhywiol.

## 7. PLANT / POBL IFANC STAFF A MYFYRWYR

Mae myfyrwyr a staff sydd â phlant yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn dilyn rheolau lleol a ddarperir gan eu Coleg, Ysgol neu Wasanaeth, neu'r Coleg, yr Ysgol neu'r Gwasanaeth y maent yn ymweld â hwy.

Mae staff a myfyrwyr sy'n dod â phlant neu bobl ifanc i eiddo'r brifysgol yn bennaf gyfrifol am oruchwyliaeth a diogelwch y plant neu'r bobl ifanc hynny.

Dylai myfyrwyr hefyd ymgynghori â *Pholisi'r brifysgol ar Feichiogrwydd a Mamolaeth Myfyrwyr* o ran dod â phlant ar y campws.

## 8. DIWYDRWYDD DYLADWY GWEITHREDU'R POLISI GYDA PHARTNERIAID

[a] Rhaid i bob contract ymchwil ac addysg sy'n cynnwys gweithio gyda sefydliadau partner, fynd trwy broses diwydrwydd dyladwy'r brifysgol, fydd dan oruchwyliaeth y Gwasanaethau Llywodraethu. Bydd rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy yn cynnwys sefydlu pa systemau, polisïau a gweithdrefnau sydd gan unrhyw sefydliad partner ar waith sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl, gan gynnwys sefydlu a oes ganddynt bolisi diogelu neu ddogfen gyfatebol sy'n rhoi cyfrifoldeb ar aelodau'r sefydliad.

[b] Bydd yn ofynnol i sefydliadau partner nad oes ganddynt bolisi diogelu a/neu nad oes ganddynt god ymddygiad sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion mewn perygl gadw at ddarpariaethau'r polisi hwn.

[c] Rhaid i brif ymchwilwyr ddarparu tystiolaeth i'r Gwasanaethau Llywodraethu i sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei ddwyn i sylw'r unigolyn/unigolion arweiniol perthnasol gan y sefydliad(au) partner a bydd datganiad yn cael ei gynnwys yng nghontractau'r brifysgol â sefydliadau partner sy'n nodi eu bod, trwy lofnodi'r cytundeb, yn cytuno i gadw at Bolisi Diogelu Prifysgol Bangor.

Ni fydd y brifysgol yn gallu partneru â sefydliadau sydd naill ai heb bolisïau diogelu/amddiffyn plant priodol a/neu god ymddygiad ar waith neu nad ydynt yn cytuno i gadw at Bolisi Diogelu Prifysgol Bangor.
Os oes gan bartneriaid allanol eu polisi diogelu/cod ymddygiad eu hunain ar waith yna dylid darparu copi o'r rhain i'r Gwasanaethau Llywodraethu i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y brifysgol.

[d] Bydd staff sefydliadau partner yn gallu mynd i ddigwyddiadau hyfforddi'r brifysgol ar ddiogelu pe bai canlyniad y prosesau diwydrwydd dyladwy yn awgrymu y bydd hynny o fudd.

[e] Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Diogelu Data'r brifysgol, dylid cytuno ar unrhyw gyfnewid gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau diogelu cyn llofnodi unrhyw gytundeb neu gontract a gall fod ar ffurf cytundeb rhannu data rhwng y partïon.

[dd] Dylai unrhyw bryderon neu achosion sy'n codi sy'n ymwneud â sefydliad partner gael eu hadrodd i Brifysgol Bangor cyn gynted â phosib trwy'r Swyddog Diogelu. Pan wneir cwyn am aelod staff o sefydliad partner neu am y sefydliad partner yn ei gyfanrwydd, dylid rhoi gwybod am hyn cyn gynted â phosib i Swyddog Diogelu Prifysgol Bangor a fydd yn gweithio gyda'r sefydliad partner i ymchwilio i'r mater. Efallai na fydd ymchwiliad o'r fath yn digwydd nes bod casgliadau unrhyw ymchwiliad asiantaeth gorfodi'r gyfraith yn hysbys, ond gwneir asesiad risg o'r penderfyniad hwn ar y pryd gan y Swyddog Diogelu.

Os mai canlyniad yr achos troseddol neu unrhyw ymchwiliad yw bod plentyn neu oedolyn mewn perygl wedi ei gam-drin neu ei ecsbloetio, ni all unrhyw waith parhaus gyda'r sefydliad partner gynnwys yr unigolyn a oedd yn destun yr ymchwiliadau hynny. Os oes lle i gredu bod honiad o gam-drin neu ecsbloetio plentyn neu oedolyn mewn perygl wedi cael ei drin yn amhriodol gan y sefydliad partner, yna rhoddir ystyriaeth ddifrifol i dynnu cyllid yn ôl neu dynnu allan o unrhyw berthynas bartner. Yn y pen draw, Pwyllgor Gweithredu'r brifysgol fydd yn gwneud y penderfyniad hwn.

## 9. HYFFORDDIANT A CHYFARWYDDYD

Mae'n hanfodol bod hyfforddiant ar faterion sy'n berthnasol i'r polisi hwn yn cael ei ddarparu i staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr perthnasol.

Bydd y brifysgol yn rhoi sesiynau hyfforddi a chynefino i staff, myfyrwyr a gwirfoddolwyr perthnasol fel rhan o amserlen hyfforddi adnoddau dynol i staff, yn flynyddol o leiaf. Yn ogystal, bydd recordiad o'r hyfforddiant ar gael i staff ar unrhyw adeg rhwng y sesiynau hyfforddi. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei oruchwylio a'i drefnu gan Wasanaethau Llywodraethu.

Bydd y brifysgol yn darparu canllawiau a chefnogaeth ddiweddaraf o bryd i'w gilydd drwy Wasanaethau Llywodraethu.

**ATODIAD 1**

Mae deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â'r Polisi hwn yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

*Deddf Plant 1989*
*Deddf Diogelu Data 2018*
*Deddf Amddiffyn Plant 1999*
*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*
*Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygiad) 2000*
*Deddf Plant 2004*
*Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006*
*Deddf Amddiffyn Rhyddid 2012*
*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014*
*Deddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017*
*Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003*
*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*
*Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998*

Dylai'r ddeddfwriaeth a'r dulliau gweithredu canlynol gael eu hystyried hefyd:

*Deddf Safonau Gofal 2000*
*Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019*
*Ennill Cymhwyster i Ddysgu - Safonau Proffesiynol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig a Gofynion ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon*
*Canllawiau'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) ar Wirio a Gwahardd*
*Canllaw'r ISA ar Gyfeirio*
*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999*
*Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998*
*Mesurau Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011*

Mae polisïau perthnasol y brifysgol yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt:

*Polisi a Dulliau Gweithredu'n ymwneud â Myfyrwyr dan 18 oed*
*Polisi Derbyn*
*Polisi Pennu Lle mewn Neuaddau*
*Polisi Cysylltiadau Personol Staff a Myfyrwyr*
*Polisi Iechyd a Diogelwch*
*Polisi Gwarchod Data*
*Polisi 'Prevent'*

**ATODIAD 2**

**Gweithdrefnau a Chanllawiau**

Disgwylir i staff gyfrannu'n weithredol at ddiwylliant sefydliadol lle na chaiff ymddygiad amhriodol ei oddef.

Mae'r dulliau gweithredu hyn yn rhoi cyngor i staff y brifysgol ar y camau y dylid eu cymryd mewn cysylltiad ag amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl. Mae'n bwysig bod staff yn rhoi esiampl drwy ymddygiad rhagorol, a dylent gofio y gallai rhywun arall gamddehongli eu gweithredoedd, waeth pa mor dda eu bwriadau. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol bob amser i'r hyn sy'n amgylchedd priodol a beth sy'n ymddygiad priodol mewn perthynas â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.

**ARWYDDION O GAM-DRIN**

Mae staff y brifysgol sydd mewn cysylltiad rheolaidd a chyson â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol o gam-drin. Fodd bynnag, dylai holl staff y brifysgol fod yn ymwybodol o'r arwyddion a'r symptomau, a dylent roi gwybod am unrhyw arwyddion allanol o gam-drin a / neu newidiadau anesboniadwy mewn ymddygiad.

Mae arwyddion posibl yn cynnwys:-

[a] **Esgeulustod**

- Esgeulustod corfforol: Dillad annigonol, twf gwael, eisiau bwyd / diffyg maeth
- Esgeulustod emosiynol, dibyniaeth ormodol, chwilio am sylw

[b] **Camdriniaeth rywiol**

- Arwyddion corfforol, rhy aeddfed i'w (h)oed a/neu encilgar neu dawedog.

**[c] Camdriniaeth Ariannol neu Faterol**

Yn deillio o weithredoedd y mae eraill yn gofyn i'r unigolyn eu cyflawni drostynt, neu sy'n deillio o esgeulustod eraill, gan gynnwys lladrad, twyll a phwysau'n ymwneud ag ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth, camddefnyddio buddion.

- analluu sydyn neu na ellir ei esbonio i dalu biliau;
- tynnu arian o gyfrifon heb eglurhad neu'n sydyn;
- gwahaniaeth rhwng asedau ac amodau byw boddhaol;
- amharodrwydd gan oedolion mewn perygl / perthnasau i dderbyn unrhyw gymorth ariannol angenrheidiol sy'n golygu gwario pan nad yw cyllid yn broblem (NB: mae rhai pobl yn naturiol ddarbodus);
- diddordeb eithriadol gan aelodau o'r teulu a phobl eraill yn asedau'r oedolion mewn perygl;

- eiddo personol ar goll, megis darluniau neu emwaith.

Nid yw'r arwyddion hyn ynddynt eu hunain yn brawf o gamdriniaeth, ond maent yn codi amheuon. Os yw aelodau staff yn gweld arwyddion sy'n peri pryder iddynt, dylent ofyn am arweiniad gan eu rheolwr llinell a / neu Swyddog Diogelu'r brifysgol.

**RHOI GWYBOD AM ARWYDDION O GAMDRINIAETH**

Os oes gan unrhyw aelod staff wybodaeth, pryderon neu amheuon fod plentyn, person ifanc neu oedolion mewn perygl yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed, yna mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at Swyddog Diogelu'r brifysgol cyn gynted â phosibl

Nid lle aelodau staff unigol yw penderfynu a yw honiad yn wir ai peidio. Ni ddylai aelod staff fyth geisio delio ag amheuaeth, honiad na digwyddiad gwirioneddol o gamdriniaeth ar ei ben ei hun.

Rhaid rhoi gwybod am bryderon cyn gynted â phosib a lle mae unigolyn mewn perygl o niwed neu gam-drin yn syth, rhaid hysbysu'r Swyddog Diogelu ar lafar ar unwaith. Os yw'r pryderon yn ymwneud â'r Swyddog Diogelu, dylid eu cyfeirio at Ysgrifennydd y brifysgol.

**CYNGOR I STAFF**

Dylai pob unigolyn gael ei drin yn gyfartal, gyda pharch ac urddas. Dylai staff sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw wahaniaethu yn eu herbyn ar unrhyw sail, yn cynnwys gallu, a dylent herio sylwadau ac ymddygiad gwahaniaethol.

**Os yw unigolyn yn dweud wrthych eu bod hwy neu unigolyn arall yn cael eu cam-drin: -**

- Dangoswch eich bod wedi clywed yr hyn y mae'n ei ddweud, a'ch bod yn ei gymryd o ddifrif.
- Anogwch ef/hi i siarad, ond peidiwch ag annog atebion na gofyn cwestiynau arweiniol. Ceisiwch beidio â thorri ar draws pan fydd yn siarad.
- Eglurwch pa gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd, a hynny mewn ffordd sy'n briodol i oed yr unigolyn.
- Peidiwch ag addo cadw'r hyn a glywsoch yn gyfrinach, gan fod gennych gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i'r rhai y mae angen iddynt wybod.
- Ysgrifennwch yr hyn a glywsoch, gan ddefnyddio'r union eiriau os oes modd.
- Nodwch y dyddiad, yr amser, y lle a'r rhai oedd yn bresennol yn y drafodaeth.
- Rhowch wybod am eich pryderon cyn gynted ag y bo modd i'ch rheolwr llinell neu'r Swyddog Diogelu.
- Peidiwch ag wynebu'r camdriniwr honedig
- Peidiwch â phoeni nad yw pobl am eich credu – mae'n llawer gwell trafod unrhyw bryderon

**Os ydych yn poeni ynghylch ymddygiad unrhyw oedolyn (yn cynnwys aelod o staff y brifysgol) tuag at blant / pobl ifanc neu oedolion mewn perygl**

- Peidiwch ag anwybyddu'ch pryderon
- Peidiwch â chodi'r peth yn uniongyrchol gyda'r unigolyn
- Trafodwch eich pryderon gyda'ch rheolwr llinell neu'r Swyddog Diogelu

**Cyfarfodydd preifat gyda phlant/pobl ifanc/ oedolion mewn perygl**

- Dylai staff bob amser weithio mewn amgylchedd agored, ac ni ddylent byth gael eu gadael ar eu pennau eu hunain gyda phlentyn, person ifanc neu oedolion mewn perygl.
- Lle bo angen cyfweliad cyfrinachol neu gyfarfod un-i-un, dylid ei gynnal mewn ystafell gyda drws agored neu lle mae'n bosibl gweld beth sy'n digwydd yno. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylai oedolyn arall fod wrth ymyl bob amser.

**Gofalu am blant/pobl ifanc**


- Os oes raid i staff roi cymorth cyntaf i rai dan 18 oed, dylent sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod myfyrwyr a/neu staff eraill yn bresennol os oes unrhyw amheuaeth y gellid camddehongli cyswllt corfforol.
- Ni ddylai staff byth wneud cysylltiad corfforol gyda phlentyn neu berson ifanc heb achos. Lle bo plentyn neu berson ifanc mewn cyfyngder angen ei gysuro'n gorfforol, dylai staff sicrhau ei fod yn briodol, a ddim yn ddiangen.
- Os bydd aelod staff yn teimlo bod ei (g)weithredoedd wedi cael eu camddehongli, neu ei bod yn bosibl iddynt gael eu camddehongli, dylai drafod y mater gyda Deon Coleg, Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr Gwasanaeth Proffesiynol cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r digwyddiad.

**Cyngor Cyffredinol i Staff**

- Dylai staff bob amser sicrhau bod eu perthynas a'u dull, yn arbennig gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl, yn briodol, gan ofalu nad yw eu hymddygiad yn ennyn sylwadau neu ddyfalu.
- Dylai staff bob amser gadw pellter diogel a phriodol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl.
- Os bydd plant neu bobl ifanc o'r ddau ryw am gael eu goruchwylio, dylai aelod staff gwrywaidd a benywaidd fod gyda hwy bob amser.
- Mewn digwyddiadau preswyl, ni ddylai staff fynd i mewn i ystafelloedd plant/pobl ifanc ar eu pennau eu hunain, na'u gwahodd i mewn i'w hystafelloedd eu hunain. Os oes angen i aelod staff fynd i mewn i ystafell plentyn/person ifanc, yna rhaid i oedolyn arall fod yn bresennol bob amser.
- Ni ddylai staff fyth ddefnyddio grym corfforol yn erbyn rhywun arall oni bai ei fod yn ataliad rhesymol i'w ddiogelu ef/hi neu berson arall, neu i ddiogelu eiddo. Dylid bob amser gofnodi digwyddiadau yn ysgrifenedig yn syth wedyn, ynghyd â datganiad tyst lle bo'n bosibl.

(Cyngor wedi ei addasu o ganllawiau'r Adran Addysg a Gwyddoniaeth *"Cydweithio i Amddiffyn Plant rhag Cam-driniaeth: Trefniadau o fewn y Gwasanaeth Addysg".)*

## ATODIAD 3: SIART LLIF




ARWYDDION O GAM-DRIN

Mae staff y Brifysgol sydd mewn cyswllt rheolaidd ac aml gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol o gam-drin. Fodd bynnag, dylai holl staff y Brifysgol fod yn ymwybodol o'r arwyddion a'r symptomau a dylent roi gwybod am unrhyw arwyddion allanol o gam-drin a/neu newidiadau anesboniadwy mewn ymddygiad.

Mae arwyddion posibl yn cynnwys:

[a] Esgeulustod

- Esgeulustod corfforol: dillad annigonol, twf gwael, eisiau bwyd/diffyg maeth
- Esgeulustod emosiynol: dibyniaeth ormodol, ceisio sylw

[b] Cam-drin rhywiol

- Arwyddion corfforol: rhy aeddfed i'w (h)oed a/ neu encilgar

[c] Camdriniaeth Ariannol neu Faterol

Yn deillio o weithredoedd a diffyg gweithredoedd ar ran eraill gan gynnwys lladrad, twyll, a phwysau o ran ewyllysiau, eiddo neu etifeddiaeth, camddefnyddio neu gam-hawlio buddion.

- Anallu anesboniadwy neu sydyn i dalu biliau
- Tynnu arian yn sydyn neu yn anesboniadwy o gyfrifon
- Anghysondeb rhwng asedau ac amodau byw boddhaol
- Amharodrwydd gan oedolyn sydd mewn perygl / perthnasau i dderbyn unrhyw gymorth angenrheidiol sydd ei angen o ran gwariant pan nad yw arian yn broblem (Sylwer – mae rhai pobl yn ddarbodus wrth natur);
- Diddordeb rhyfeddol gan aelodau'r teulu a phobl eraill yn asedau'r oedolyn sydd mewn perygl
- Eitemau personol ar goll megis darluniau neu emwaith

Nid yw'r arwyddion hyn ynddynt eu hunain yn brawf o gam-drin ond maent yn codi amheuaeth. Os yw aelodau staff yn gweld arwyddion sy'n peri pryder iddynt dylent ofyn am gyngor gan eu rheolwr llinell a/neu Swyddog Diogelu'r Brifysgol.

**PRIFYSGOL BANGOR: COFNOD O ASESIAD RISG** **Atodiad 4**

**Enw'r Ysgol/ Adran:** **Dyddiad yr Asesiad Risg:**

| 1. Beth yw'r peryglon? | 2. Pwy allai gael eu niweidio? | 3a) Gwerthuswch y perygl | 3b) Beth ydych chi'n ei wneud eisoes? | 3c) Pa gamau pellach sydd eu hangen? | 4. Sut fyddwch chi'n rhoi'r asesiad ar waith? |
|---|---|---|---|---|---|
| *Rhestrwch y peryglon.* | *Rhestrwch pwy allai gael eu niweidio.* | *Uchel: gallai ddigwydd yn eithaf hawdd*<br><br>*Canolig: gallai ddigwydd weithiau*<br><br>*Isel: annhebygol, er y gallai ddigwydd* | *Rhestrwch yr hyn sydd eisoes wedi ei wneud i leihau'r tebygolrwydd o niwed neu wneud unrhyw niwed yn llai difrifol* | *Mae angen i chi sicrhau eich bod wedi lleihau'r risgiau i gymharu'r hyn yr ydych eisoes yn ei wneud gydag ymarfer da. Os oes gwahaniaeth, rhestrwch yr hyn sydd angen ei wneud.* | *Cofiwch flaenoriaethu. Deliwch yn gyntaf â pheryglon sydd â risg uchel ac a all achosi canlyniadau difrifol.*<br><br>*Gweithredu gan bwy*<br>*Gwnaed erbyn pryd* |
| *Enghraifft o Berygl - Methiant staff i ddilyn canllawiau ar roi gwybod am bryderon.* | *Gall plant gael eu niweidio oherwydd diffygion wrth ddelio â phryderon ynghylch plant neu beidio â rhoi gwybod am bryderon o'r fath.* | *Uchel* | *Gofynnir i staff ddarllen / dod yn ymwybodol o bolisi a gweithdrefnau ar amddiffyn plant.* | *Addysg trwy hyfforddiant mewn gweithdy ymwybyddiaeth ynghylch diogelu.* | *Swyddog Diogelu* |
| Perygl A | | | | | |
| Perygl B | | | | | |
| **Llenwyd gan:** | | | **Llofnod:** | | |